national gas transmission



# Dyletswydd Bioamrywiaeth a Gwydnwch Ecosystemau

Adroddiad dyletswydd Adran 6 2025
Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 Rhan 1 – Adran 6

Rhagfyr 2025

## Cynnwys


1. Cyflwyniad a chyd-destun 1
2. Cyflawni gofynion ein dyletswydd adran 6 3
3. Ein strategaeth cynaliadwyedd amgylcheddol 6
4. Ein prosesau a'n harferion 8
5. Rheoli pwysau allweddol 15
6. Casglu a rhannu ein data amgylcheddol 16
7. Adolygu dyletswydd a6 17
8. Gwybodaeth bellach a geirfa 18


Delwedd clawr: Adfer cynefinoedd rhostir sensitif ger Dowlais, gweler yr astudiaeth achos ar dudalen 11.

# 1. Cyflwyniad a chyd-destun

**Mae National Gas Transmission plc (National Gas) wedi ymrwymo i gyflenwi nwy yn ddiogel, yn ddibynadwy ac yn effeithlon i'r cwsmeriaid a'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu. Rydym yn berchen ar, yn rheoli ac yn gweithredu'r rhwydwaith trosglwyddo nwy pwysedd uchel ledled Prydain Fawr, sy'n cynnwys asedau sylweddol yng Nghymru.**

Ein pwrpas yn National Gas yw arwain dyfodol ynni glân i bawb; byddwn yn gwneud hyn drwy gadw nwy yn llifo i fusnesau a chartrefi. Rydym hefyd yn deall ein cyfrifoldebau dros genedlaethau'r dyfodol; byddwn yn cyflawni'r newid tuag at ffynonellau ynni glanach drwy addasu tua 1,250 milltir o biblinellau trosglwyddo nwy Prydain, ynghyd â rhai adeiladau newydd, i ddarparu asgwrn cefn hydrogen i'r Deyrnas Unedig (DU) erbyn dechrau'r 2030au. Wrth i ni symud tuag at y nod hwn, ac wrth reoli ein hasedau presennol, byddwn yn parhau i gymryd camau i gynnal a gwella bioamrywiaeth, hyrwyddo ecosystemau gwydn a lleihau effeithiau amgylcheddol ar draws ein gweithrediadau.

## Cipolwg ar NTS

Mae ein System Trosglwyddo Genedlaethol (NTS) nwy yn sicrhau bod nwy ar gael pryd bynnag a lle bynnag y mae ei angen. Mae'r NTS yn cynnwys piblinellau pwysedd uchel, gosodiadau ar ben y tir (megis cwrtiau falf) a gorsafoedd cywasgu (sy'n cynyddu llif a phwysau nwy yn y system).

**Tua 8,000 cilomedr o biblinellau pwysedd uchel**

**Mwy na 500 o osodiadau uwchben y ddaear**

**>60 o unedau cywasgu ar draws 21 o orsafoedd cywasgu**

Mae'r ddogfen hon yn cyflawni ein Dyletswydd Bioamrywiaeth a Gwydnwch Ecosystemau i adrodd o dan Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn gosod fframwaith ar gyfer Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru (NRAP) Llywodraeth Cymru, sef cynllun strategol i gyflawni enillion bioamrywiaeth drwy chwe amcan:

- Ymgysylltu a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth i wreiddio bioamrywiaeth drwy gydol prosesau penderfyniadau ar bob lefel
- Cynyddu gwydnwch ein hamgylchedd naturiol drwy adfer cynefinoedd sydd wedi dirywio a chreu cynefinoedd
- Gwella ein tystiolaeth, ein dealltwriaeth a'n monitro
- Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd o bwys mawr a gwella eu rheoli
- Mynd i'r afael â phwysau allweddol ar rywogaethau a chynefinoedd
- Darparu fframwaith llywodraethu a chymorth ar gyfer cyflawni

Mae gan National Gas, fel awdurdod cyhoeddus[1], ofyniad penodol i gynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo gwydnwch ecosystemau drwy wneud y materion hyn yn rhan annatod o'n polisïau, penderfyniadau busnes a gweithredoedd dyddiol ac i adrodd yn gyhoeddus ar gynnydd bob tair blynedd.

**Lle mae ein camau gweithredu, mesurau a dangosyddion a fonitrir yn cyd-fynd â chwe amcan y Cynllun Gweithredu Adfer Natur (NRAP), mae'r rhain wedi'u hamlygu drwy'r ddogfen hon.**

1 .Rydym yn Gwmni Cyfyngedig Cyhoeddus (CCC) sy'n eiddo i gyfranddalwyr, ond fel cludwr nwy (o fewn ystyr Rhan 1 o Ddeddf Nwy 1986 (c. 44)) rydym yn cael ein hystyried yn ymgymerwr statudol yng Nghymru, sy'n dod o fewn y diffiniad o awdurdod cyhoeddus.

## National Gas Transmission plc yng Nghymru

Yng Nghymru rydym yn rheoli ac yn berchen ar asedau nwy, ac yn gyfrifol am reoli'r seilwaith ynni a'r daliadau tir anweithredol o dan ein rheolaeth a'n perchnogaeth uniongyrchol. Mae ein hasedau'n cynnwys y prif lwybr piblinell sy'n cludo nwy a fewnforir i'r DU o derfynellau Nwy Naturiol Hylifol (LNG) yn Aberdaugleddau yn ne-orllewin Cymru.

Lle mae ein rhwydweithiau ynni yn croesi tir sy'n eiddo i drydydd parti, rydym yn gweithio mewn cydweithrediad â'n grantwyr i sicrhau diogelwch a dibynadwyedd ein rhwydweithiau. Mae ein hasedau'n rhyngweithio ag ystod eang o gynefinoedd Cymru, o dir amaethyddol a mosaigau glaswelltir i amgylcheddau gwlyptir, coetir a glannau afonydd.

Rydym yn buddsoddi yn ein rhwydwaith ac yn uwchraddio ein seilwaith. Mae ystyriaethau bioamrywiaeth yn ganolog i sut rydym yn cynllunio, yn cynnal ac yn uwchraddio seilwaith mewn ffyrdd sy'n osgoi ac yn lleihau effeithiau amgylcheddol, yn gwarchod yr amgylchedd naturiol a bioamrywiaeth ac yn meithrin cydweithio a phartneriaeth ag eraill.




"Ledled Cymru, byddwn yn sicrhau bod ein gwaith hanfodol yn cael ei wneud mewn ffyrdd sy'n lleihau effeithiau negyddol ar yr amgylchedd ac yn chwilio am gyfleoedd i gyflawni gwelliannau."



Gall cynefinoedd yng Nghymru fod yn sensitif ac yn amrywiol iawn, o fynyddoedd a rhostiroedd i iseldiroedd a rhannau arfordirol

## Ein hymrwymiad i fioamrywiaeth

Mae bioamrywiaeth wedi'i hymgorffori yn ein hymrwymiadau, ein polisïau a'n prosesau datblygu cynaliadwy corfforaethol ehangach. Yn dilyn asesiad o'n holl dir yn y flwyddyn ariannol o 2021 i 2022, gwnaethom sefydlu bod cyfanswm arwynebedd y cynefin yn 878.16 hectar ac mae gennym waelodlin o 4,165.61 o unedau bioamrywiaeth.

Wrth i ni uwchraddio ein rhwydwaith a hwyluso'r newid i ffynonellau ynni glanach, rydym yn gweithio'n agos gyda chymunedau, partneriaid a rhanddeiliaid i sicrhau bod gwaith hanfodol yn osgoi, yn lleihau, neu'n gwrthbwyso effeithiau amgylcheddol ac yn chwilio am gyfleoedd i'w gwella. Mae adrannau diweddarach yr adroddiad hwn yn egluro sut rydym yn gwneud hyn ac yn darparu enghreifftiau o brosiectau diweddar sy'n dangos sut rydym wedi rhoi'r ymrwymiadau hyn ar waith.

## Gweithio gydag eraill

Byddwn yn parhau i weithio gyda phartneriaid strategol, sefydliadau ac arbenigwyr amgylcheddol a rhanddeiliaid eraill i chwilio am gyfleoedd i gydweithio, ysgogi gwerth a rennir o'n tir, amddiffyn a gwella'r amgylchedd naturiol a'r manteision a'r gwasanaethau y mae'n eu darparu. Bydd hyn yn sicrhau bod yr effeithiau sy'n gysylltiedig â'n rhwydwaith ynni, nawr ac yn y dyfodol, yn cael eu lleihau i'r lleiafswm, a bod gwelliannau'n cael eu cyflwyno law yn llaw â dyfodol carbon isel.




**Amcan wedi'i alinio**
Amcan 1 NRAP: Ymgysylltu a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth i wreiddio bioamrywiaeth drwy gydol prosesau gwneud penderfyniadau ar bob lefel

# 2. Cyflawni gofynion ein dyletswydd adran 6

**Mae ystyried a rheoli'r amgylchedd naturiol yn agwedd allweddol ar ein hymrwymiadau corfforaethol, targedau cynaliadwyedd, a strategaethau a phrosesau datblygu rhwydwaith. Mae effeithiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r tir yr ydym yn berchen arno ac yn ei reoli wedi'u hymgorffori yn ein prosesau.**

Mae'r dull hwn yn cyd-fynd â meysydd ffocws amgylcheddol Ofgem ar gyfer y cyfnod rheoleiddio RIIO-T2, yn enwedig lleihau effeithiau amgylcheddol eraill y rhwydwaith (nid methan), h.y. llygredd i'r amgylchedd lleol, defnyddio adnoddau a rheoli gwastraff, a cholli bioamrywiaeth.

## Ein Cynllun Gweithredu Amgylcheddol




Mae ein Cynllun Gweithredu Amgylcheddol (EAP) corfforaethol yn canolbwyntio ar y meysydd lle gallwn wneud y cyfraniad mwyaf at ddyfodol mwy cynaliadwy, yn unol â Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig.

Mae'n ymateb i, ac yn cael ei ysgogi gan, faterion amgylcheddol sydd bwysicaf i'n rhanddeiliaid a'n busnes; mae'r rhain yn cynnwys diogelu a gwella ein hamgylchedd naturiol a hyrwyddo bioamrywiaeth. Rydym wedi ymrwymo i leihau ein heffeithiau negyddol a chanolbwyntio ar y meysydd lle gallwn sicrhau newid cadarnhaol. Mae ein Tîm Amgylcheddol a Chynaliadwyedd ymroddedig yn gyfrifol am adolygu ein perfformiad a'n hymrwymiadau.

Mae ein Cynllun Gweithredu Amgylcheddol (EAP) presennol yn dangos sut rydym yn cydweithio â'n gweithwyr a'n rhanddeiliaid i leihau ein heffaith ar yr amgylchedd. Mae'n nodi 30 o ymrwymiadau sy'n helpu i arwain a mesur ein perfformiad yn erbyn pob targed hyd at ddiwedd ein cyfnod rheoleiddio presennol (RIIO-T2 ym mis Mawrth 2026). Bydd ein hymrwymiadau EAP yn parhau ac yn cael eu datblygu i'n cyfnod rheoleiddio nesaf (RIIO-T3) sy'n dod i ben ym mis Mawrth 2031.

Mae pob ymrwymiad EAP yn cael ei ysgogi gan ffactorau deddfwriaethol ac anneddfwriaethol ac wedi'i grwpio o dan bum colofn. Bydd pob un o'r colofnau hyn yn lleihau ein heffaith ar yr amgylchedd ac yn cynyddu'r cyfalaf naturiol ar ac o amgylch ein safleoedd; mae dau sy'n cyd-fynd yn benodol â bioamrywiaeth. Mae'r rhain yn cynnwys:

- **Gofalu am yr amgylchedd naturiol**
  Pryd bynnag y byddwn yn cyflawni prosiectau adeiladu a datgomisiynu, mae'n ofynnol sicrhau bod mesurau priodol yn cael eu cymryd i ddiogelu a hyrwyddo bioamrywiaeth. Rydym yn gwneud hynny, a byddwn yn parhau i wneud hynny, drwy wella gwerth asedau naturiol ar dir anweithredol yr ydym yn berchen arno, drwy wella cynefinoedd..
- **Arweinyddiaeth ar gyfer newid**
  Rydym yn ymgorffori cynaliadwyedd yn ein prosesau gwneud penderfyniadau, yn parhau i fod yn dryloyw ynghylch ein cynnydd ac yn gweithio gyda'r diwydiant i wthio'r cynllun cynaliadwyedd yn ei blaen.

# Ymrwymiadau ar waith

Mae wyth o'n 30 ymrwymiad EAP yn ymwneud â'r ddwy golofn a amlinellwyd uchod.

| Colofn amgylcheddol | Ymrwymiad amgylcheddol | Disgrifiad o ymrwymiad |
|---|---|---|
| **Gofalu am yr amgylchedd naturiol** | Cyflawni cynnydd o 10% mewn gwerth amgylcheddol ar dir anweithredol erbyn diwedd cyfnod RIIO-T2. | Defnyddir offer cyfrifo Enillion Net Bioamrywiaeth (BNG) i asesu sut y gellir datblygu tir ac i wella gwerth ecosystemau. |
| | Gweithredu fel ceidwaid ein safleoedd diangen drwy sicrhau ein bod yn eu hadfer i ddarparu BNG o ran gwerth amgylcheddol lle nad ydym wedi ein cyfyngu. | Lle bo modd, ein nod yw ymgorffori gwelliant gwerth amgylcheddol ar safleoedd diangen i ddarparu BNG. Gall cyfyngiadau fel amodau cynllunio effeithio ar sut y gellir rheoli safleoedd diangen. |
| | Addysgu'r cyhoedd am faterion amgylcheddol drwy allgymorth sy'n gysylltiedig â phrosiectau lleihau allyriadau gorsafoedd cywasgu mawr. | Ymgysylltu â'r gymuned leol drwy ymweliadau ag ysgolion, sgyrsiau lleol, gan gynnwys effaith amgylcheddol ein prosiectau mawr. |
| | Cyflawni 10% o BNG mewn gwerth amgylcheddol (gan gynnwys bioamrywiaeth) ar brosiectau adeiladu a gynlluniwyd (gan gynnwys lle rydym yn cyflawni drwy drydydd partïon). | Mae ein targed BNG yn cael ei gymhwyso ar gyfer pob cynllun sy'n arwain at golli cynefinoedd yn barhaol neu dros dro, effeithiau negyddol ar gyflwr y cynefin neu ddarparu swyddogaeth ecosystem e.e. sgrinio, rheoli llifogydd, hamdden. |
| **Arweinyddiaeth ar gyfer newid** | Gweithlu sydd wedi ymgysylltu â materion amgylcheddol ac sy'n arwain drwy ddangos esiampl. | Rydym yn gweithredu rhaglen gynhwysfawr o ymgysylltu â gweithwyr ar faterion amgylcheddol gan gynnwys allyriadau, gwastraff, lleihau plastigion a theithiau gweithwyr. |
| | Cynhyrchu Adroddiad Amgylcheddol Blynyddol (gan gynnwys Ôl-troed Carbon ein Busnes). | Cyhoeddi perfformiad amgylcheddol Trosglwyddo Nwy yn flynyddol gan ganiatáu adborth gan randdeiliaid. |
| | Arwain o ran tryloywder ar adrodd ar garbon cyfalaf a chyfalaf naturiol. | Byddwn yn gwthio diwydiant ymlaen mewn meysydd cynaliadwyedd lle rydym yn arwain. Byddwn yn gweithio ar y cyd drwy weithgorau diwydiant i gyflawni hyn. Byddwn yn canolbwyntio ar ddau faes: cyfalaf naturiol/BNG a charbon cyfalaf. |
| | Ymgorffori cynaliadwyedd yn llawn mewn gwneud penderfyniadau. | Mae prisio carbon yn dylanwadu ar benderfyniadau ac mae costau oes gyfan yn cael eu hasesu yn y broses o wneud penderfyniadau. |

### Ein targed gwella bioamrywiaeth o 10%

Yn National Gas, gwnaethom ymrwymiad polisi i gyflawni enillion net o leiaf 10% neu fwy mewn gwerth amgylcheddol (gan gynnwys bioamrywiaeth) ar ein holl brosiectau adeiladu cyn i hyn gael ei ymgorffori yn y gyfraith yn Lloegr drwy ofynion Enillion Net Bioamrywiaeth (BNG). Mae'r rhain yn gosod nifer sylfaenol o unedau bioamrywiaeth ac yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygwyr wella bioamrywiaeth o leiaf 10%.

Yng Nghymru, gelwir y gyfundrefn enillion bioamrywiaeth yn "Budd Net i Fioamrywiaeth" (NBB). Er bod y cyfundrefnau'n debyg o ran eu bwriad i gyflawni gwelliant cyffredinol mewn bioamrywiaeth, yng Nghymru nid yw NBB yn defnyddio dull sy'n seiliedig ar fetrigau fel BNG (ac nid yw'r gyfundrefn gyfatebol yn yr Alban ychwaith). Serch hynny, er cysondeb ac i gyd-fynd â pholisi ein cwmni, rydym yn defnyddio dull tebyg i'n holl brosiectau, pa bynnag ranbarth y cânt eu cyflawni ynddo, ac rydym yn hyderus bod hyn yn bodloni holl ofynion y llywodraeth ganolog a datganoledig.

## Ymgysylltu â'n cydweithwyr a rhoi cyfrif am ein gweithredoedd

Hoffem gael gweithlu (ein gweithwyr uniongyrchol a'n timau contractwyr) sy'n ymgysylltu â materion amgylcheddol a chynaliadwyedd ac sy'n arwain drwy ddangos esiampl.

Rydym yn parhau i gefnogi ein gweithwyr drwy hyfforddiant, gweithgorau amgylcheddol, canllawiau a llawlyfrau, a'n contractwyr drwy ein fframweithiau caffael sefydledig a'n contractau yn ôl y galw.

Mae ein huwch-arweinwyr yn cymryd cyfrifoldeb am ein perfformiad amgylcheddol ac i ysgogi unrhyw ymrwymiadau yn ôl 'ar y trywydd iawn' os oes gennym unrhyw bryderon na fyddant yn cael eu cyflawni.



Mae ein hyfforddiant Ymwybyddiaeth Amgylchedd a Chynaliadwyedd yn orfodol i'n holl weithwyr; mae 97% wedi cwblhau'r hyfforddiant hwn yn ystod y 3 blynedd diwethaf.



Mae ein cyfarwyddwyr yn gwbl atebol am ein hymrwymiadau amgylcheddol.

# 3. Ein strategaeth cynaliadwyedd amgylcheddol

**Er mwyn cefnogi cyflawni ein hymrwymiad i fioamrywiaeth, rydym wedi sefydlu strategaeth cynaliadwyedd amgylcheddol, wedi'i chefnogi gan bolisïau i ysgogi ein hamcanion a chyfeirio ein prosesau a'n penderfyniadau busnes.**

Mae ein strategaeth cynaliadwyedd amgylcheddol wedi'i hategu gan ein System Rheoli Amgylcheddol (EMS) a'n Polisi Cynaliadwyedd Amgylcheddol.

## System Rheoli Amgylcheddol ISO14001

Ynghyd â chyflawni ein hymrwymiadau corfforaethol a'n Polisi Cynaliadwyedd Amgylcheddol y mae ein System Rheoli Amgylcheddol (EMS). Mae hyn wedi'i ardystio i ISO14001:2015, gan ddarparu fframwaith cadarn ar gyfer rheoli ein heffeithiau a'n cyfleoedd amgylcheddol gan gynnwys bioamrywiaeth ac ecosystemau. Cafodd ein EMS ei hail-ardystio i safon ISO14001: 2015 yn 2025.

Fel rhan o'n EMS, mae'n ofynnol i bob gweithiwr yn y DU ymgymryd â hyfforddiant e-ddysgu ymwybyddiaeth amgylcheddol. Mae'r modiwl hyfforddi yn cynnwys ymwybyddiaeth a hyfforddiant sy'n gysylltiedig â rheoli effeithiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â chynefinoedd a bioamrywiaeth. Mae ein prosesau archwilio a sicrhau EMS yn cynnwys asesiad o sut rydym yn rheoli'r effeithiau a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd naturiol a bioamrywiaeth.


Archwiliad EMS yn un o'n gorsafoedd

## Polisi Cynaliadwyedd Amgylcheddol

Mae ein Polisi Cynaliadwyedd Amgylcheddol yn berthnasol i bawb sy'n cael eu cyflogi gan National Gas neu sy'n gwneud gwaith ar ei ran. Mae ein holl weithwyr yn gweithio yn unol â'r polisi hwn, ac mae ein harweinwyr yn sicrhau bod y polisi hwn wedi'i ymgorffori ar draws pob lefel o'r sefydliad. Mae nifer o'n hymrwymiadau Polisi Cynaliadwyedd Amgylcheddol yn cyd-fynd â'n hamcanion o ran bioamrywiaeth a gwella'r amgylchedd naturiol; mae'r rhain wedi'u hamlinellu dros y dudalen.

"Yn National Gas rydym yn falch o integreiddio cynaliadwyedd amgylcheddol i'n gweithgareddau. O fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd i gyflawni dros ein hamgylchedd a'n cymunedau lleol, rydym yn gweithio i gryfhau ein busnes a chreu gwerth hirdymor i'n cwsmeriaid."


national gas

Environmental Sustainability Policy

"At National Gas we proudly integrate environmental sustainability into our activities. From addressing climate change to delivering for our local environment and communities, we work to strengthen our business and create long term value for our customers.

Operating at the heart of the Britain's energy system, we deliver today for our customers in a world where we leave nobody behind while preparing to meet the challenges of the future."

Jon Butterworth, Chief Executive

We are passionate about our environmental sustainability commitments. We strive to achieve minimal adverse impacts across all our operations whilst also seeking ways to improve the local environment and communities.

Scope

Our Environmental Sustainability Policy applies to you if you are employed by or carry out work on behalf of National Gas. All our employees shall work in accordance with this policy and our leaders shall ensure this policy is embedded across all levels of the organisation.

We commit to:

- Identifying our environmental risks, including climate change, and developing plans to adapt to and/or mitigate them.
- Protecting the environment by ensuring prevention of pollution is a key consideration in the design and operation of all our assets.
- Using resources more efficiently by re-using or refurbishing assets, using sustainable and/or recycled materials.
- Identifying opportunities to embrace new innovations to lead the way in our sector in improving emissions to air and using alternatives to hazardous materials.
- Seeking ways to enhance the natural value of the areas we work for the benefit of local communities and the environment.
- Ensuring all our employees have the training, skills, knowledge, and resources necessary to achieve the requirements of our internal standards.
- Setting expectations of those who work on our behalf to demonstrate the same commitment to the environment as we do and working with our supply chain to contribute to the delivery of our targets.
- Continually improving the Environmental Management System by reviewing and challenging our performance using feedback from stakeholders and benchmarking against our contemporaries.

Date: December 2024. Version 1.2

© National Gas 2024

Mae'r tabl canlynol yn crynhoi ymrwymiadau perthnasol o'n Polisi Cynaliadwyedd Amgylcheddol

| Ymrwymiadau Polisi Cynaliadwyedd Amgylcheddol perthnasol |
| --- |
| • Mae diogelu'r amgylchedd drwy sicrhau atal llygredd yn ystyriaeth allweddol wrth ddylunio ein holl asedau. |
| • Defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon gan ddefnyddio deunyddiau cynaliadwy a lleihau gwastraff. |
| • Nodi cyfleoedd i ddefnyddio dewisiadau amgen yn lle deunyddiau peryglus. |
| • Chwilio am ffyrdd o wella gwerth naturiol yr ardaloedd rydym yn gweithio ynddynt er budd cymunedau lleol a'r amgylchedd. |
| • Sicrhau bod gan ein holl weithwyr yr hyfforddiant, y sgiliau, y wybodaeth a'r adnoddau sy'n angenrheidiol i gyflawni gofynion ein safonau mewnol. |
| • Gosod disgwyliadau ar y rhai sy'n gweithio ar ein rhan i ddangos yr un ymrwymiad i'r amgylchedd ag yr ydym ni a gweithio gyda'n cadwyn gyflenwi i gyfrannu at gyflawni targedau 'Ein Cyfraniad'. |

## Ein hymrwymiadau polisi ar waith

Mae'r rhan fwyaf o'n gosodiadau uwchben y ddaear a'n gorsafoedd cywasgu mewn ardaloedd gwledig ac yn aml yn defnyddio cyrsiau dŵr lleol i waredu dŵr glaw glân. Rydym yn defnyddio haenau o fesurau atal llygredd caeth i amddiffyn yr amgylcheddau sensitif hyn.

Mae'r tir anweithredol sydd gennym yn cael ei reoli'n ofalus gan ein harbenigwyr tir mewnol, gyda chefnogaeth contractwyr a ddewiswyd yn ofalus.

Mae ein timau cyflawni prosiectau yn gweithredu ein hymrwymiadau i gyflawni enillion bioamrywiaeth ac adfer a gwella cynefinoedd ar ôl cwblhau'r gwaith.



Am resymau gweithredol mae ein gorsafoedd cywasgu wedi'u lleoli mewn lleoliadau gwledig; rhaid i'n gweithgareddau fod yn sensitif i'r amgylcheddau cyfagos.

# 4. Ein prosesau a'n harferion

**Yr allwedd i ysgogi gwelliant yn yr amgylchedd naturiol yw ymgorffori ystyriaeth o fioamrywiaeth yn ein prosesau a chael gweithlu ymgysylltiedig a fydd yn sicrhau bod ein hamcanion yn cael eu cyflawni'n ymarferol.**

Mae gennym nifer o brosesau a dulliau i ddeall, mesur a llywio penderfyniadau ynghylch sut rydym yn rheoli'r amgylchedd naturiol a bioamrywiaeth ar draws ein tir. Mae'r rhain wedi'u hintegreiddio i'n prosesau llywodraethu ac felly'n llywio'r ffordd rydym yn gwneud penderfyniadau ar draws y busnes. Mae hyn yn golygu bod ganddynt ddylanwad uniongyrchol ar sut rydym yn rheoli ac yn gweithredu ein prosiectau, ac yn mynd ati i wneud ein gweithgareddau o ddydd i ddydd.

## Gwerthusiad Opsiynau, cyfeirio piblinellau, a dewis safle

Pan fyddwn yn datblygu seilwaith nwy newydd mawr (a all gynnwys systemau sy'n seiliedig ar hydrogen, carbon deuocsid neu fethan (nwy naturiol)), rydym yn cynnal Asesiad Opsiynau ar ein prosiectau. Mae Gwerthuso Opsiynau yn caniatáu i ni gymharu opsiynau ac asesu'r effeithiau cadarnhaol a negyddol y gallent eu cael ar draws ystod eang o feini prawf gan gynnwys ffactorau amgylcheddol, economaidd-gymdeithasol, diogelwch, argaeledd, dibynadwyedd ac ariannol.

Mae hyn yn ein galluogi i ddewis yr opswin sy'n cydbwyso'r ystyriaethau hyn orau, a dogfennu'n glir y rhesymeg sy'n sail i'n penderfyniadau. Mae'r wybodaeth a gasglwn fel rhan o'r Asesiad Opsiynau yn mynd ymlaen i lywio trafodaethau gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys y cyhoedd.

Ar gyfer pynciau amgylcheddol, rydym yn asesu'r effaith ehangach ar yr amgylchedd sy'n gysylltiedig â'n hopsiynau datblygu. Yn gyffredinol, mae opsiynau sy'n osgoi neu'n lleihau effeithiau ar yr amgylchedd, cymunedau lleol, ac ardaloedd o weithgareddau economaidd yn well.

Lle bynnag y bo modd, rydym yn ceisio osgoi effeithiau negyddol ar gadwraeth natur; yn benodol rydym yn asesu effeithiau tebygol pob opsiwn ar dderbynyddion sensitif. Mae'r rhain yn cynnwys Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA), Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA), Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) a nodweddion eraill o werth cadwraeth natur (a all gynnwys safleoedd nad oes ganddynt ddynodiadau swyddogol ond sy'n cael eu gwerthfawrogi gan gymunedau lleol ac yn bwysig ar gyfer llesiant y cymunedau hynny). Wrth gymharu opsiynau, bydd y rhai sy'n osgoi neu'n lliniaru effeithiau ar safleoedd o bwys i ecoleg neu fioamrywiaeth yn cael eu hystyried yn fanteisiol.

| Pynciau amgylcheddol mewn gwerthuso opsiynau | Opsiynau sy'n debygol o sgorio'n uchel |
|---|---|
| • Ecoleg<br>• Daeareg a phriddoedd<br>• Amgylchedd hanesyddol<br>• Tirwedd a gweledol<br>• Dŵr<br>• Newid hinsawdd | • Tirwedd a gweledol: lleihau effeithiau ar olygfeydd ac ardaloedd sensitif<br>• Ecoleg: osgoi cynefinoedd gwarchodedig (e.e. SoDdGA, ACA)<br>• Amgylchedd hanesyddol: osgoi safleoedd rhestredig neu safleoedd o bwys diwylliannol<br>• Dŵr, aer, sŵn, priddoedd: asesu a lleihau risgiau |

## Proses FEA

Mae gennym broses Asesiad Amgylcheddol Ffurfiol (FEA) sefydledig ar gyfer prosiectau trosglwyddo nwy sydd â'r potensial i effeithio ar yr amgylchedd; rydym wedi defnyddio a diweddaru'r system hon ers dros 10 mlynedd bellach, ac yn ystod y cyfnod hwnnw mae wedi dod yn 'fusnes fel arfer' i ni. Mae'r broses FEA yn cwmpasu'r ystod lawn o bryderon amgylcheddol a chynaliadwyedd posibl a wynebir yn ystod dylunio a chyflawni prosiectau. O ran yr amgylchedd naturiol a bioamrywiaeth, mae FEA yn sicrhau ein bod yn atebol am:

- Cynnal arolygon ecolegol amserol a phriodol
- Llinell sylfaen cynefinoedd
- Cynnal asesiadau cyfalaf naturiol a bioamrywiaeth
- Cynnal adolygiadau cynaliadwyedd gyda'n contractwyr
- Dylunio cynlluniau rheoli safleoedd a mesurau lliniaru ecolegol
- Gweithredu ein mesurau lliniaru cyn, yn ystod ac ar ôl adeiladu, gan gynnwys rheoli tir yn y tymor hir sydd ei angen i gyflawni ymrwymiadau bioamrywiaeth.

Mae ein Tîm Amgylcheddol a Chynaliadwyedd yn darparu cymorth arbenigol i brosiectau a'r busnes gweithredol. Lle mae angen cyngor a chymorth arbenigol ychwanegol arnom, mae gennym dîm o ymgynghorwyr allanol wrth law fel rhan o'n fframwaith gwasanaethau amgylcheddol.

## Y gyfres 'ENV'

Cefnogir ein proses FEA gan gyfres o weithdrefnau a manylebau rheoli sy'n cwmpasu pynciau amgylcheddol a chynaliadwyedd allweddol yr ydym wedi'u datblygu i amlinellu'r disgwyliadau a osodwn ar ein timau cyflawni a'n contractwyr. Rydym yn galw hyn yn gyfres o ddogfennau 'ENV'.

Mae'r gweithdrefnau hyn yn dogfennu'r llif gwaith, neu'r camau, y mae'n rhaid i'n timau eu dilyn ym mhob cam o brosiect cyfalaf o'r camau cynharaf o ddylunio, drwy sicrhau caniatâd cynllunio a thrwyddedau amgylcheddol i waith ar y safle ac yna cau'r prosiect.

Mae cyfres o ddogfennau ENV yn dilyn y dull 'Cynllunio-Gwneud-Adolygu-Adrodd' ar gyfer systemau rheoli ac yn sicrhau ein bod yn mynd ati i bob prosiect yn gyson a chyda dealltwriaeth lawn o'r materion perthnasol.




T/PM/ENV20: Gweithdrefn Reoli ar gyfer cymhwyso Asesiadau Amgylcheddol Ffurfiol yn ystod cyfnodau dylunio peirianneg a chyflawni prosiectau




T/SP/ENV30: Manyleb ar gyfer Cynaliadwyedd a Sero Net ar gyfer Prosiectau Trosglwyddo Nwy

## Asesu cyfalaf naturiol a bioamrywiaeth ar ein prosiectau

Mae ein dull o ddiogelu cyfalaf naturiol a gwella bioamrywiaeth yn dechrau gyda dylunio prosiectau i osgoi cymaint o niwed amgylcheddol â phosibl, rydym yn gwneud hyn gan ddefnyddio technegau fel yr Asesiad Opsiynau a amlinellwyd yn gynharach a thrwy gynnal asesiadau amgylcheddol manwl yng nghyfnodau dichonoldeb cynnar o dan ein proses lywodraethu Asesiad Amgylcheddol a Chynaliadwyedd.

Gan ddibynnu ar natur a graddfa'r prosiect, mae gennym ystod o offer rydym yn eu defnyddio, yn aml gyda chefnogaeth ein contractwyr arbenigol, i asesu gwerth ein gofynion cyfalaf naturiol a gwella bioamrywiaeth. Mae'r offer hyn yn ein galluogi i ddeall gwerth ein cyfalaf naturiol, mesur unrhyw effaith a ragwelir ac yna dylunio cynlluniau lliniaru a gwella ecolegol ar gyfer pob prosiect.

Mae'r dull hwn yn berthnasol i'r dull rheoli rhagweithiol ar gyfer ein hystâd ein hunain, ac unrhyw safleoedd a daliadau tir newydd a gafwyd i hwyluso datblygiad ein rhwydweithiau ynni.

Mae defnyddio'r offer hyn wedi'i integreiddio i'n proses lywodraethu FEA, er mwyn sicrhau bod yr asesiadau cywir yn cael eu cynnal ar yr amser cywir.

## Darparu cyfalaf naturiol a bioamrywiaeth gwell ar ein prosiectau

Mae'r asedau naturiol (coetiroedd, glaswelltiroedd, gwlyptiroedd) sydd gennym yn darparu ystod eang o fuddion a gwasanaethau i fuddiolwyr cyhoeddus a phreifat e.e. dal a storio carbon, buddion ansawdd aer lleol, peillio, hamdden a rheoli llifogydd. Lle y bo modd, rydym yn defnyddio'r sylfaen cyfalaf naturiol hon i gyflawni lliniaru a gwella yn agos at ble mae unrhyw effeithiau'n digwydd.

Mae'r mesurau a ddefnyddir ar ein prosiectau yn amrywio o fesurau ar raddfa fach i gynlluniau adfer llawn ac yn ein galluogi i gyflawni ein rhwymedigaethau corfforaethol a chyfreithiol ar fioamrywiaeth. Mae'r rhain yn cynnwys cyflawni arferion da amgylcheddol a chynaliadwyedd ar safleoedd, lliniaru risgiau i'r amgylchedd naturiol, ac adfer yn dilyn gwaith.

Mae mesurau ar gyfer gwella gwerth bioamrywiaeth yn amrywio o'r raddfa fach e.e. gosod blychau nythu i gynlluniau tirwedd llawn gyda phlannu, creu cynefinoedd a chynlluniau rheoli hirdymor sy'n ymestyn dros ddegawdau. Lle nad yw lliniaru yn ymarferol ar y safle, rydym yn edrych i weithio gyda phartneriaid a ddewiswyd yn ofalus i ddatblygu a chytuno ar ffyrdd priodol o wrthbwyso ein heffeithiau, a chwilio am gyfleoedd i wella yn yr ardal neu'r rhanbarth cyfagos.

**Amcan wedi'i alinio**
Amcan 2 NRAP: Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd o bwys mawr a gwella eu rheoli

**Amcan wedi'i alinio**
Amcan 3 NRAP: Cynyddu gwydnwch ein hamgylchedd naturiol drwy adfer cynefinoedd sydd wedi dirywio a chreu cynefinoedd

## Astudiaeth achos: Cynnal a chadw piblinellau ar gynefinoedd rhostir sensitif

Wrth i ni adeiladu a chynnal ein hasedau nwy ledled Cymru, mae'n hanfodol bod ein prosiectau'n ceisio ffyrdd o leihau darnio ein cynefinoedd a'n rhywogaethau, atal colli cynefinoedd yn barhaol, a sicrhau y gallwn gyflawni gwelliannau cadarnhaol.



Matiau i ddarparu swbstrad ar gyfer aildyfiant cynefin rhostir

Mewn ymateb i ganfyddiadau o archwiliad piblinell ar un o'n prif biblinellau yng Nghymru, nodwyd saith lleoliad fel rhai â diffygion sylweddol a oedd angen eu cloddio, eu harchwilio a'u hadfer.

Gwnaed gwaith rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf 2025 o fewn SoDdGA dynodedig wedi'i leoli ar Dir Comin. Roedd y prosiect hwn yn ymgorffori ystyriaethau bioamrywiaeth mewn cynllunio, gwneud penderfyniadau, cyflawni gweithredol, ac adfer ar ôl y gwaith.

### Integreiddio bioamrywiaeth i gynllunio prosiectau

- Sicrhawyd Cydsyniad SoDdGA gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn dilyn asesiad ecolegol.
- Cafwyd caniatâd gan Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PCAC) ar gyfer gwaith ar Dir Comin.
- Nodwyd mawndir ac adar yn nythu fel y prif risgiau y mae angen defnyddio dulliau lliniaru wedi'u targedu.
- Cwblhawyd adroddiadau amgylcheddol ac arolygon adar yn nythu cyn eu symud.

### Atal Tarfu ar Rywogaethau Gwarchodedig

- Digwyddodd y gwaith yn ystod y cyfnod nythu sensitif. Er mwyn lleihau aflonyddwch ar y tir a lleihau'r risg i adar sy'n bridio, cludwyd y rhan fwyaf o'r peiriannau, y deunyddiau a'r offer i'r safle mewn hofrennydd, gan gyfyngu'n sylweddol ar aflonyddwch ar gynefinoedd ac ôl troed sŵn.
- Roedd gennym gwrt canolog (y tu allan i'r SoDdGA) lle roedd yr holl beiriannau ac offer yn cael eu storio. Digwyddodd yr holl godiadau hofrennydd o'r cwrt hwn i'r ardaloedd cloddio, gan ddilyn cynlluniau llwybr caeth a gynlluniwyd i osgoi safleoedd nythu sensitif.
- Defnyddiodd y tîm prosiect fapio ecolegol pwrpasol i nodi ac osgoi parthau adar bridio, gan sicrhau bod yr holl lwybrau mynediad o'r awyr a symudiadau traed yn achosi cyn lleied o aflonyddwch â phosibl..

### Diogelu Cynefinoedd â Blaenoriaeth

- Roedd yr holl safleoedd cloddio wedi'u lleoli o fewn mawnog, cynefin â blaenoriaeth Adran 7.
- Cefnogwyd cloddiadau gan ddefnyddio dulliau effaith isel megis ochrau wedi'u curo, pentyrrau dalennau, fframiau, neu flychau ffos hydrolig.
- Tynnwyd tyweirch mawn ac isbriddoedd a'u storio ar wahân, gan alluogi adferiad diweddarach a cadw cymaint o'r strwythur pridd a'r swyddogaeth hydrolegol â phosibl.

- Gweithredwyd rheolaethau caeth i atal erydiad, dadleoli gwaddod, ac aflonyddwch hydrolegol.
- Roedd y saith lleoliad i gyd yn hynod o anghysbell, wedi'u lleoli mewn tir cors dwfn a bregus.



- Defnyddiwyd mynediad hofrennydd yn helaeth i atal difrod i'r wyneb, lleihau rhigolau, ac amddiffyn mawndir y SoDdGA rhag aflonyddwch hirdymor.
- Arhosodd mesurau diogelwch amgylcheddol ar waith drwy gydol ffenestr y prosiect.

Lliniarodd godiadau hofrennydd lawer o'r risgiau amgylcheddol posibl

## Adfer Ecosystemau

Ar ôl i'r atgyweiriadau i'r biblinell gael eu cwblhau, cafodd y cloddiadau eu hail-lenwi gan ddefnyddio isbriddoedd gwreiddiol a'u gorchuddio â thyweirch mawn wedi'u storio. Nod yr adferiad oedd:

- Cadw proffiliau mawn,
- Sefydlogi llystyfiant arwyneb,
- Cefnogi parhad hydrolegol, a
- Hyrwyddo cadw carbon hirdymor ac adfer bioamrywiaeth.

Mae deialog gyda CNC yn parhau i hwyluso adferiad a monitro pellach i sicrhau adferiad cynaliadwy o gynefinoedd. Disgwylir i ragor o ymweliadau â'r safle a gwaith gwella cynefinoedd barhau tan Wanwyn 2026, gan ganiatáu amodau tymhorol digonol ar gyfer sefydlu llystyfiant yn llwyddiannus.

Ceisiodd National Gas argymhellion ar gyfer rhywogaethau lleol priodol o rug, glaswellt a phlanhigion rhostir eraill i sicrhau bod adferiad yn cefnogi gwydnwch ecosystemau ac yn cyd-fynd â disgwyliadau CNC. Cyflogwyd contractwr arbenigol i ymgymryd â'r gwaith adfer ychwanegol hwn.

Roedd gweithio mewn partneriaeth yn ganolog; cynhaliodd ecolegwyr arbenigol arolygon, cefnogodd baratoad Cydsyniad SoDdGA, a goruchwyliodd gydymffurfiaeth ecolegol ar y safle.

Mae ymgysylltu â chontractwyr cynefinoedd rhostir yn parhau i gyflawni adferiad mawndir arbenigol a sicrhau ansawdd a gwydnwch ecolegol hirdymor.

Roedd y prosiect yn cynrychioli buddsoddiad o tua £1 miliwn ar draws y saith lleoliad cloddio, gan adlewyrchu ymrwymiad sylweddol i reoli asedau'n ddiogel wrth amddiffyn cynefinoedd dynodedig.

### Canlyniadau ar gyfer Bioamrywiaeth a Gwydnwch Ecosystemau

Cyfrannodd y prosiect yn gadarnhaol at fioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau drwy wneud y canlynol:

- Lleihau aflonyddwch tir yn ystod tymor bridio adar.
- Diogelu strwythur a swyddogaeth cynefinoedd mawndir.
- Defnyddio hofrennydd i ddosbarthu a chasglu offer a deunyddiau i osgoi olrhain ar draws tir.
- Lleihau risgiau colli carbon drwy drin ac adfer mawn yn ofalus.
- Cydweithio ag arbenigwyr ecolegol i lywio arfer gorau.
- Ymgorffori adferiad cynefinoedd hirdymor mewn ymrwymiadau ar ôl prosiect.
- Ymgorffori gwelliannau cynefin ychwanegol fel ailhadu rhostiroedd brodorol i gefnogi gwelliant ecolegol hirdymor ac enillion net posibl.

## Astudiaeth Achos: Gweithio gydag Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru i wella cynefinoedd yng nghoetir Taf Fechan

Nodwyd gennym fod angen uwchraddio rhan o'n piblinell yn Nhaf Fechan i'r hosan nitrogen a ddefnyddir i amddiffyn rhag cyrydiad.

Roedd y gwaith yn gofyn am gloddio'r biblinell ar gyfer atgyweiriadau, gyda chwrt safle a man gosod wedi'u sefydlu ym maes parcio coetir Taf Fechan. Mae'r coetir yn cael ei reoli gan Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru, sy'n gofyn am gydlynu gofalus i sicrhau'r effaith ecolegol leiaf a chyfleoedd i wella bioamrywiaeth.

Integreiddiodd y prosiect hwn ystyriaethau bioamrywiaeth ym mhob cam o gynllunio, gweithredu, a gwelliannau cynefinoedd ar ôl gwaith.

### Cynllunio a chaniatâd ecolegol

- Cynhaliwyd arolwg ecolegol o'r ardal yr effeithiwyd arni i asesu cynefinoedd a rhywogaethau cyn y gwaith.
- Cafwyd caniatâd gan CNC i waith ddigwydd o fewn y SoDdGA.
- Sicrhaodd cydlynu ag Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru fod y gwaith yn cyd-fynd ag amcanion cadwraeth lleol.

### Mesurau lliniaru yn ystod y gwaith

- Roedd y dynodiadau yn ardal y gwaith yn cynnwys SoDdGA, Gwarchodfa Natur Leol (LNR), Safle o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur (SINC) a Gwarchodfa Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt (WTR). Roedd hyn yn gofyn am liniaru priodol ac arferion gwaith sensitif i ddiogelu nodweddion diddordeb ecolegol y dynodiadau gorgyffwrdd hyn.
- Gosodwyd yr holl gynwysyddion hylif ac offer planhigion (cloddiwr, cywasgydd) ar hambyrddau diferu i atal halogiad, a darparwyd gweithdrefn ail-lenwi â thanwydd i CNC.
- Cafodd coed draenen wen a gadwyd eu ffensio i atal difrod damweiniol.
- Roedd trin clogfeini a gweddillion yn cynnwys gwiriadau ymlaen llaw am rywogaethau; er enghraifft, darganfuwyd llyffant cyffredin wrth glirio ac fe'i hadleolwyd yn ddiogel.

### Lleihau aflonyddwch i gynefinoedd

- Dyluniwyd cynllun y cwrt a'r llwybrau mynediad cloddio i osgoi cynefinoedd sensitif o fewn y coetir.
- Trefnwyd y gwaith yn ofalus i leihau aflonyddwch i fywyd gwyllt, yn enwedig yn ystod cyfnodau sensitif.



Cynefin coedwig yng nghoetir Taf Fechan

gynnwys ystlumod lleiaf, ystlumod mawr, ystlumod hirglust ac ystlumod Natterer.

## Monitro a chydymffurfedd

- Darparwyd goruchwyliaeth amgylcheddol yn ystod yr ymweliad â'r safle gan arbenigwr amgylcheddol o National Gas.
- Tynnwyd lluniau i gofnodi cydymffurfiaeth â mesurau lliniaru, gan gynnwys defnyddio hambyrddau diferu, ffensio ac adleoli rhywogaethau.

**Canlyniadau ar gyfer bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau**

Cyfrannodd y prosiect hosan nitrogen Taf Fechan yn gadarnhaol at fioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau drwy wneud y canlynol:

- Achosi cyn lleied o aflonyddwch â phosibl i gynefinoedd coetir a rhywogaethau preswyl yn ystod y gwaith adeiladu.
- Diogelu coed ac adnoddau pridd presennol rhag effeithiau gweithredol.
- Gwella bioamrywiaeth leol drwy osod blwch tylluan frech a blychau ystlumod.
- Cydweithio ag arbenigwyr ecolegol a'r ymddiriedolaeth bywyd gwyllt leol i gyflawni gwelliannau ecolegol wedi'u targedu.
- Cefnogi gwydnwch rhywogaethau a swyddogaeth ecosystemau o fewn coetir Taf Fechan.

Mae'r mesurau hyn yn cynrychioli cyfraniad cadarnhaol at gynnal a gwella bioamrywiaeth, gan ymgorffori arfer gorau ecolegol o fewn gweithgareddau gweithredol.



Ystlum hirglust (*Plecotus auritus*)

# 5. Rheoli pwysau allweddol

## Rhywogaethau ymledol a chwyn niweidiol

Fel rhan o'n dull o reoli tir ac ystadau, mae pob un o'n safleoedd yn cael eu harchwilio o leiaf unwaith y flwyddyn gan ein darparwr gwasanaeth eiddo tiriog. Mae'r broses arolygu hon yn cynnwys nodi rhywogaethau ymledol neu chwyn niweidiol, yn ogystal â materion eraill fel llygredd a thipio anghyfreithlon, a allai effeithio ar gynefinoedd a bioamrywiaeth. Ar ôl eu nodi, rydym yn cadw cofrestr o bob safle lle mae rhywogaethau ymledol yn bresennol ac yn cychwyn rhaglen fonitro a thrin gan ddefnyddio ein contractwyr arbenigol i reoli a rheoli'r ardal. Yn ystod cyflawni'r prosiect, mae ein contractwyr yn cymryd drosodd reoli'r materion hyn o fewn y cyrtiau a'r ardaloedd adeiladu dynodedig; cymerir gofal arbennig pan fyddwn yn cronni priddoedd ar gyfer eu hadfer wedi hynny gan y gall tir sydd wedi'i aflonyddu hybu twf chwyn.

## Gwastraff ac adnoddau

Fel rhan o'n EAP, ein prif nod yw cynhyrchu cyn lleied o wastraff â phosibl ar draws ein cadwyn werth gyfan ac alinio ein busnes ag egwyddorion yr economi gylchol. Bydd y gwaith hwn yn lleihau baich gwastraff ar yr amgylchedd naturiol ac yn lleihau echdynnu adnoddau.

## Atebion ar sail natur

Lle bo'n briodol, rydym yn defnyddio atebion naturiol i reoli effeithiau sy'n gysylltiedig â'n gweithgareddau adeiladu a'r gweithrediadau parhaus yn ein safleoedd, yn enwedig ein gorsafoedd cywasgu a'n gosodiadau uwchben y ddaear. Gall y rhain gynnwys defnyddio cribynnau pridd, plannu coed a llystyfiant i ddarparu system sgrinio gweledol a lliniaru sŵn, a chynlluniau draenio cynaliadwy (SDCau) i reoli risgiau dŵr ffo a llifogydd yn ein safleoedd.

## Cod Ymddygiad ein cyflenwyr

Mae gennym God Ymddygiad cyflenwyr sy'n nodi ein disgwyliadau, ein gwerthoedd a'n hegwyddorion sylfaenol yr ydym yn disgwyl i'n cyflenwyr eu hymestyn i'w busnes a'u cadwyn gyflenwi eu hunain. Rydym yn disgwyl i'n cyflenwyr wneud cyfraniad gweithredol at gynaliadwyedd amgylcheddol, gan gynnwys cydymffurfio â safonau cyfreithiol, atal llygredd a lliniaru newid hinsawdd.

## Gweithio gyda'n cadwyn gyflenwi

Rydym hefyd yn gweithio gyda'n cadwyn gyflenwi i sicrhau bod effeithiau ehangach y cynhyrchion a'r gwasanaethau a brynwn yn cael eu deall a'u rheoli'n effeithiol, gan gynnwys effeithiau posibl ar ddatgoedwigo a cholli cynefinoedd.

**Amcan wedi'i alinio**
Amcan 4 NRAP: Mynd i'r afael â phwysau allweddol ar rywogaethau a chynefinoedd

## 6. Casglu a rhannu ein data amgylcheddol

**Mae elfen graidd o'n strategaeth gynaliadwyedd yn canolbwyntio ar gasglu gwell dealltwriaeth o'r asedau naturiol sydd gennym, a'r manteision a'r gwasanaethau y mae'r rhain yn eu darparu i'n busnes a buddiolwyr ehangach.**

Er mwyn llywio datblygiad ein cynlluniau seilwaith mwy, rydym yn casglu llu o ddata amgylcheddol ac ecolegol. Ar gyfer prosiectau yng Nghymru, byddwn fel arfer yn ymgysylltu â rhanddeiliaid gan gynnwys yr Awdurdodau Cynllunio Lleol, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol a CNC.

Drwy'r broses hon byddwn yn cytuno ar natur a chwmpas yr arolygon safle a'r asesiadau a gynhaliwn, a fydd yn caniatáu i'r prosiect symud ymlaen a lleihau effeithiau gweddilliol.

I gefnogi ceisiadau cynllunio neu Drwydded Amgylcheddol, rydym yn aml yn cynnal cyfres o astudiaethau ac asesiadau amgylcheddol a all gynnwys:

- Arolygon ecoleg, gan edrych ar gynefinoedd cyffredinol a rhywogaethau penodol gan gynnwys ystlumod, moch daear, madfallod cribog, infertebratau, adar ac ymlusgiaid.
- Astudiaethau coedyddiaeth i edrych ar goed a dylunio mesurau priodol i amddiffyn coed sy'n cael eu cadw.
- Asesiadau tirwedd, a fydd yn ystyried safbwyntiau allweddol y gall y gymuned leol weld ein datblygiad ohonynt.

Drwy gydol datblygiad a chyflawniad ein prosiectau, mae National Gas yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid perthnasol, gan rannu data yn aml, trafod canfyddiadau a cheisio eu gwybodaeth a'u harbenigedd drwy gyfarfodydd a chyfathrebu.

Mae data a gesglir yn yr arolygon hyn a'u canlyniadau bron bob amser ar gael i'r cyhoedd, oni bai bod unrhyw bryderon diogelwch penodol yn gysylltiedig â'r wybodaeth gan fod llawer o'n hasedau wedi'u dosbarthu fel Seilwaith Cenedlaethol Hanfodol.

Gellir dod o hyd i wybodaeth drwy byrth cynllunio lleol neu gofrestrau cyhoeddus ac rydym yn gwahodd sylwadau a chyfranogiad gan y cyhoedd a chyrff statudol yn anffurfiol a thrwy'r darpariaethau sydd ar waith o dan ddeddfwriaeth amgylcheddol a chynllunio.

**Amcan wedi'i alinio**
Amcan 5 NRAP: Gwella ein tystiolaeth, ein dealltwriaeth a'n monitro

# 7. Adolygu dyletswydd A6

**Mae cynnydd yn erbyn ein targedau corfforaethol sy'n ymwneud â phob elfen o'n strategaeth fusnes gyfrifol gan gynnwys carbon, newid hinsawdd, sero net, adnoddau a'r amgylchedd naturiol (gan gynnwys bioamrywiaeth a'n dyletswydd Adran 6) yn cael ei fesur a'i adrodd yn allanol fel rhan o'n prosesau adrodd corfforaethol presennol, gan gynnwys yn ein Hadroddiad Amgylcheddol Blynyddol.**

Mae Adrannau 2, 3 a 4 o'r adroddiad hwn wedi disgrifio'r fframwaith llywodraethu yr ydym wedi'i sefydlu i gyflawni ein cyfrifoldebau a'n hymrwymiadau cyfreithiol a chorfforaethol. Rydym wedi amlinellu sut mae'r rhwymedigaethau hyn yn cael eu rhoi ar waith ar ein prosiectau cyflawni drwy ddwy astudiaeth achos ddiweddar sy'n manylu ar y gwaith a gynhaliwyd gennym yng Nghymru yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Bob tair blynedd bydd y Tîm Amgylcheddol a Chynaliadwyedd yn cefnogi busnesau'r DU i gasglu gwybodaeth ac astudiaethau achos a fydd yn cael eu cynnwys mewn fersiwn wedi'i diweddaru o'r adroddiad hwn.

**Amcan wedi'i alinio**
Amcan 6 NRAP: Rhoi fframwaith llywodraethu a chymorth ar waith ar gyfer cyflawni



Mae ein hasedau piblinell nwy yn croesi llawer o fathau o gynefinoedd yng Nghymru, gan gynnwys rhostir agored. Fel arfer cânt eu cuddio o'r golwg, ond os canfyddir diffygion rhaid eu cloddio i'w hatgyweirio

# 8. Gwybodaeth bellach a geirfa

Drwy'r ddogfen hon rydym wedi cyfeirio at ddogfennau eraill National Gas, a ffynonellau allanol eraill o wybodaeth bellach ar y pwnc hwn.

## Gwybodaeth bellach

**Ein hafan**
https://www.nationalgas.com/

**Ein Polisi Amgylchedd a Chynaliadwyedd**
https://www.nationalgas.com/sites/default/files/documents/gtm-environment-sustainability-policy-2024.pdf

**Ein hadroddiad amgylcheddol blynyddol diweddaraf**
https://www.nationalgas.com/sites/default/files/documents/AER%20-%20National%20Gas%20-%202024_25.pdf

**Ein Cynllun Gweithredu Amgylcheddol (EAP) a'n Targedau Pum Mlynedd**
https://www.nationalgas.com/sites/default/files/documents/Environmental%20Action%20Plan%20Brochure.pdf

**Ein rôl yn nyfodol ynni**
https://www.nationalgas.com/future-energy

**Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru**
https://www.biodiversitywales.org.uk/cy/

**Adran 6 dyletswydd bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau Llywodraeth Cymru: adroddiad cryno 2022**
https://www.gov.wales/section-6-biodiversity-and-resilience-ecosystems-duty-summary-report-2022-html

**Cynllun Gweithredu Adfer Natur (NRAP) Llywodraeth Cymru**
https://www.gov.wales/nature-recovery-action-plan

## Geirfa

**CNC.** Cyfoeth Naturiol Cymru

**EAP.** Ein Cynllun Gweithredu Amgylcheddol, sy'n cyhoeddi ein pum colofn amgylcheddol a chynaliadwyedd a 30 ymrwymiad sylfaenol.

**FEA.** Asesiad Amgylcheddol Ffurfiol, ein proses fewnol i ysgogi'r cymhwysiad cywir, mynych ac archwiliadwy o weithgareddau amgylcheddol a chynaliadwyedd yn ystod dylunio a chyflawni prosiectau.

**BNG.** Enillion Net Bioamrywiaeth, dull o ddatblygu, a/neu reoli tir, sy'n anelu at adael yr amgylchedd naturiol mewn cyflwr mesuradwy gwell nag yr oedd o'r blaen.

**ISO14001:2015.** Dyma'r safon a gydnabyddir yn rhyngwladol ar gyfer systemau rheoli amgylcheddol (EMS). Mae'n darparu fframwaith i sefydliadau ddylunio a gweithredu System Rheoli Amgylcheddol, a gwella eu perfformiad amgylcheddol yn barhaus.

**Methan.**. Dyma nwy tŷ gwydr pwerus, hyd at 28 gwaith yn gryfach na charbon deuocsid, ac mae'n hysbys ei fod yn cyfrannu at newid hinsawdd anthropogenig. Methan yw prif gynhwysyn nwy naturiol.

**NBB.** Budd Net i Fioamrywiaeth, y gyfundrefn ennill bioamrywiaeth yng Nghymru.

**NRAP.** Cynllun Gweithredu Adfer Natur Llywodraeth Cymru.

**NTS.** Y System Trosglwyddo Genedlaethol nwy, sy'n eiddo i ac yn cael ei gweithredu gan National Gas Transmission plc.

**Ofgem.** Rheoleiddiwr ynni Prydain Fawr. Rydym yn gweithio i amddiffyn defnyddwyr ynni, yn enwedig pobl agored i niwed, drwy sicrhau eu bod yn cael eu trin yn deg ac yn elwa o amgylchedd glanach a gwyrddach.

**RIIO.** Mae RIIO yn sefyll am Refeniw = Cymhellion + Arloesi + Allbynnau. Y fframwaith rheoli prisiau ar gyfer rhwydweithiau trosglwyddo nwy pwysedd uchel sy'n para am bum mlynedd. Roedd RIIO-T1 yn rhedeg o 2013-2021 Dechreuodd RIIO-T2 ar 1 Ebrill 2021 ac mae'n rhedeg tan 31 Mawrth 2026. Mae RIIO-GT3 yn dechrau ar 1 Ebrill 2026 ac yn rhedeg tan 31 Mawrth 2031.

National Gas Transmission
National Grid House
Warwick Technology Park
Gallows Hill
Warwick, CV34 6DA

Ffôn: +44 (0) 1926 65 3000

nationalgas.com